

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, **Monday 27 January 2020 at 7.10 pm**

**PRESENT :-** His Worship the Mayor, Councillor John Wyn Williams  
The Deputy Mayor, Councillor Owen Hurcum

Councillors :-	Gwynant Roberts (Chairman)	Keiran Jones	Nigel Pickavance
	Dylan Fearnley	Colin King	Gareth Roberts
	Derek Hainge	John Martin	Luke Tugwell
	Medwyn Hughes	Enid Parry	Elin Walker Jones
	John Wynn Jones		Huw Wyn Jones

Officer : Martin Hanks, Acting Town Clerk/Finance Officer

### **173/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from and Councillors Les Day and Mair Rowlands.

### **174/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillors J Wynn Jones, M Hughes, N Pickavance and D Hainge declared an interest in Item 176/19 Applications for Financial Assistance and abstained from the vote.

### **175/19 SECTION 137 APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE**

The Town Clerk reported on applications that had been received and responded to several questions on the process, funding and details of each of the application.

**RESOLVED:** that the following organisations be granted the sums of:-

- a) Y Goriad - £500
- b) Clwb Nofio Bangor Swim Club - £500
- c) Community First Responder – It was felt that there are a number of defibrillators around the City and the Council would like to undertake a survey of the exact number and their locations prior to committing additional funds to the concept.
- d) Parteriaeth Maesgeirchen - £500
- e) Wales Air Ambulance - £300

Declarations of interest by Councillor J Wynn Jones who left the Meeting during the discussion and decision on these matters.

### **176/19 NORTH & MID WALES ASSOCIATION OF LOCAL COUNCILS**

Councillors Derek Hainge and John Martin, together with the Clerk presented a report from the recent meeting of the Association covering the topics below:-

- Homelessness and the increasing number of people who find themselves without a place to live.
- The establishment of a Rail Liaison Committee for the North Wales Coast railway lines.
- The importance and benefits of Business Improvement Districts.
- The proposals contained within the Local Government Elections (Wales) Bill as they may impact on Town & Community Councils, including; extending electoral terms to 5 years, the inclusion of 16 & 17 year olds in the electorate, the inclusion of an option for the Single Transferable Vote, Powers of Competency for local Councils etc.

**RESOLVED:** to accept the Report.

### **177/19 WALES AUDIT OFFICE REPORT**

**RESOLVED:** Due to the confidential nature of this draft report it was resolved to exclude the press and public for this item.

The Council response to the accuracy of the details contained within the draft Wales Audit Report (November 2019), which had been available to all Councillors to examine for an extended period prior to the beginning of the meeting, was discussed in detail, together with the comments of Councillors who were still on the City Council from the period in question and who had previously examined the Report.

**RESOLVED:** that the Clerk detail the points raised during the discussion and communicate them to the Wales Audit Office.

### 178/19 REPORT ON NANTPORTH CIC LEASE

The Council were presented with an update on the current position regarding the lease between the City Council and Nantporth CIC, which included a financial review. Following a detailed discussion the Council made the following decisions:

**RESOLVED:** To accept the recommendation contained in the presentation, which were:

- i. To defer any arrears payments for six months.
- ii. To undertake a rent review of Nantporth Stadium.
- iii. To authorise the Town Clerk to initiate an independent survey of the Stadium to ensure that routine maintenance is being undertaken as per the lease agreement.

### 179/19 FINANCE

a) **Invoices for Payment** - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £8292.68 had been approved.

**RESOLVED:** that the payments be noted.

b) **Third Quarter Accounts 2019/20** - The Town Clerk presented the budget versus actual expenditure report for the Third Financial Quarter of 2019/20 for information and comment.

**RESOLVED:** that the Accounts be received and noted as set out in the report.

### 180/19 RISK ASSESSMENT REVIEW & CONTROL OF FINANCIAL SYSTEM

The Town Clerk presented the above document, which had been circulated.

**RESOLVED:** that the Risk Assessment Review and the Review of Effectiveness of Internal Control System document be accepted. However, the Clerk was requested to review the format used for this Report and report back to Council prior to the end of the financial year.

### 181/19 TOWN CLERK'S FINANCIAL REPORT – BUDGET FOR 2020/2021

The Town Clerk presented the budget report to Council for the financial year 2020–2021, which had prepared following consultations with the Mayor, the Deputy Mayor and chair and deputy chair of the Finance & General Purposes committee. Significant changes to the budget lines from the 2019-2020 budget were explained on the notes page. The Clerk responded to questions by Members.

#### Review of Council Prices and Charges

**RESOLVED:** to approve the prices of Penrhyn Hall hire as indicated in the Town Clerk's Report; to increase the rental charges for the Pier Kiosks as set out in the Report; to maintain the Pier car park prices unchanged but to increase the Pier entrance prices, as proposed.

#### Operational Services

**RESOLVED:** to approve an allocation of funds to complete upgrade works as detailed in the report and budget schedules.

#### Staffing

It was accepted that two seasonal temporary workers would be required to assist with the workload.

**RESOLVED:** to allow the Town Clerk to assess requirements and be authorised to appoint two seasonal temporary workers, in consultation with the Mayor, Deputy Mayor and Chair of the Staffing Panel.

### 182/19 ESTIMATES OF INCOME & EXPENDITURE

**RESOLVED:** to accept the Town Clerk's estimates of income and expenditure and approve the 2020-2021 budget documents.

### 183/19 PRECEPT 2020/2021

**RESOLVED:** to approve the 2020-2021 precept at a level of £388,166.

The Meeting finished at 8.30pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, nos Lun 27 o Ionawr 2020 am 7.10 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cyngorydd John Wyn Williams

Y Dirprwy Faer, y Cyngorydd Owen Hurcum

Cynghorwyr :-	Gwynant Roberts (Cadeirydd)	Keiran Jones	Nigel Pickavance
	Dylan Fearnley	Colin King	Gareth Roberts
	Derek Hainge	John Martin	Luke Tugwell
	Medwyn Hughes	Enid Parry	Elin Walker Jones
	John Wynn Jones		Huw Wyn Jones

Swyddog : Martin Hanks, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid dros dro

### 173/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Les Day a Mair Rowlands.

### 174/19 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cynghorwyr J Wynn Jones, M Hughes, N Pickavance a D Hainge ddiddordeb yn Eitem 175/19 Ceisiadau am Gymorth Ariannol ac ataliodd ei bleidlais.

### 175/19 ADRAN 137 CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL

Adroddodd Clerc y Dref ar y ceisiadau a dderbyniwyd ac atebodd gwestiynau ar y broses, cyllido a manylion pob cais.

**PENDERFYNWYD** rhoi i'r mudiadau canlynol y symiau a ganlyn:-

- Y Goriad - £500
- Clwb Nofio Bangor Swim Club -£500
- Ymatebwr Cyntaf Cymunedol – Oherwydd bod nifer o ddiffibrilwyr o amgylch y Ddinas, teimlai'r Cyngor yr hoffai wneud arolwg o'r union nifer a'u lleoliad cyn ymrwymo cyllid ychwanegol i'r syniad
- Partneriaeth Maesgeirchen - £500
- Ambiwlans Awyr Cymru - £300

### 176/19 CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorwyr Derek Hainge a John Martin, ynghyd â'r Clerc, adroddiad o gyfarfod diweddar y Gymdeithas oedd yn ymdrin â'r pynciau isod:-

- Digartrefedd a'r nifer cynyddol o bobl sy'n eu cael eu hunain heb unman i fyw
- Sefydlu Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd ar gyfer llinellau rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru
- Pwysigrwydd a manteision Ardaloedd Gwella Busnes
- Y cynigion sydd ym Mil Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) gan y gallent gael effaith ar Gyngorau Tref a Chymuned, yn cynnwys; ymestyn y cyfnod etholiadol i 5 mlynedd, cynnwys rhai 16 ac 17 oed yn yr etholwyr, cynnwys opsiwn am Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, Pŵer Cymhwysedd i Gyngorau lleol ayb.

**PENDERFYNWYD:** derbyn yr Adroddiad.

### 177/19 ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**PENDERFYNWYD:** Oherwydd natur gyfrinachol yr adroddiad drafft hwn, penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitem hon.

Trafodwyd yn fanwl ymateb y Cyngor i gywirdeb y manylion yn Adroddiad drafft Swyddfa Archwilio Cymru (Tachwedd 2019), a oedd wedi bod ar gael i'r Cynghorwyr i gyd ei archwilio am gyfnod estynedig cyn dechrau'r cyfarfod, ynghyd â sylwadau'r Cynghorwyr a oedd yn dal i fod ar Gyngor y Ddinas yn y cyfnod dan sylw ac oedd eisoes wedi bod trwy'r Adroddiad.

**PENDERFYNWYD:** fod y Clerc yn cofnodi'r pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth a'u cyfleu i Swyddfa Archwilio Cymru.

**178/19 ADRODDIAD AR BRYDLES NANTPORTH CIC**

Rhodddwyd diweddariad i'r Cyngor am y sefyllfa gyfredol o ran y brydles rhwng Cyngor y Ddinas a Nantporth CIC, a oedd yn cynnwys adolygiad ariannol. Yn dilyn trafodaeth fanwl gwnaeth y Cyngor y penderfyniadau canlynol:

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr argymhellion oedd yn y cyflwyniad, sef:

- i. Gohirio unrhyw ôl-daliadau am chwe mis.
- ii. Cynnal adolygiad rhent ar Stadiwm Nantporth.
- iii. Awdurdodi Clerc y Dref i drefnu arolwg annibynnol o'r Stadiwm er mwyn sicrhau fod gwaith cynnal a chadw arferol yn cael ei wneud fel yn ôl cytundeb y brydles.

**179/19 CYLLID**

- a) **Anfonebau i'w Talu** - Nodwyd cymeradwyaeth i'r anfonebau fel y manylir arnynt yn y rhestr yn dod i gyfanswm o £8292.68

**PENDERFYNWYD:** nodi'r taliadau.

- b) **Cyfrifon Trydydd Chwarter 2019/20** Cyflwynodd Clerc y Dref yr adroddiad cyllideb yn erbyn gwariant gwirioneddol am Drydydd Chwarter Ariannol 2019/20 er gwybodaeth ac i gael sylwadau.

**PENDERFYNWYD:** derbyn y Cyfrifon a'u nodi fel y maent yn yr adroddiad.

**180/19 ADOLYGIAD ASESIAD RISG A RHEOLI'R SYSTEM CYLLID**

Cyflwynodd Clerc y Dref y ddogfen uchod, a oedd wedi'i dosbarthu'n barod.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r Adolygiad Asesiad Risg ac Adolygiad Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Clerc adolygu'r fformat a ddefnyddir i'r Adroddiad hwn ac adrodd yn ôl i'r Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**181/19 ADRODDIAD CYLLID CLERC Y DREF – CYLLIDEB 2020/2021**

Cyflwynodd Clerc y Dref yr adroddiad cyllideb i'r Cyngor am y flwyddyn ariannol 2020-2021, a oedd wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghori â'r Maer, y Dirprwy Faer a chadeirydd a dirprwy gadeirydd y pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol. Eglurwyd y newidiadau sylweddol i'r llinellau cyllideb ers cyllideb 2019-2020 ar y dudalen nodiadau. Atebodd y Clerc gwestiynau'r Aelodau.

**Adolygiad o Brisiau a Ffioedd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** :- cymeradwyo prisiau llogi Neuadd y Penrhyn fel ag y dangosir yn Adroddiad Clerc y Dref; cynyddu rhent blynyddol Ciosgau'r Pier fel yn yr Adroddiad; cadw prisiau maes parcio'r Pier fel y maent ond cynyddu prisiau mynediad i'r Pier, fel y cynigiwyd.

**Gwasanaethau Gweithredol**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo dyrannu cyllid i gwblhau gwaith uwchraddio fel y manylir arno yn yr adroddiad a rhestri'r gyllideb.

**Staffio**

Derbyniwyd y byddai angen dau weithiwr tymhorol dros dro i helpu â'r llwyth gwaith.

**PENDERFYNWYD** fod Clerc y Dref yn asesu'r gofynion ac yn cael ei awdurdodi i benodi dau weithiwr tymhorol dros dro mewn ymgynghoriad â'r Maer, y Dirprwy Faer a Chadeirydd y Panel Staffio.

**182/19 AMCANGYFRIF INCWM A GWARIANT**

**PENDERFYNWYD** derbyn amcangyfrifon Clerc y Dref o incwm a gwariant a chymeradwyo dogfennau cyllideb 2020-2021.

**183/19 PRAESEPT 2020/21**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Praesept ar gyfer 2020/2021 ar lefel o £388,166.